# Children in Wales
# Plant yng Nghymru

## Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2016-17



- Cynrychioli'r sector
- Ymgynghori â'n haelodau
- Hyfforddiant arbenigol
- Cyfranogiad i bobl ifanc
- Dylanwadu ar bolisi ac ymarfer
- Datblygu rhwydweithiau cryf
- Cynyddu ymwybyddiaeth gyhoeddus a phroffesiynol
- Cynhyrchu a lledaenu gwybodaeth

## Cyflwyniad



Plant yng Nghymru yw'r corff trosfwaol cenedlaethol ar gyfer sefydliadau gwirfoddol, statudol a phroffesiynol ac unigolion sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru. Ein nod yw hybu buddiannau'r grwpiau hyn a gweithredu i ddiwallu eu hanghenion fel hyn:

- Cyfrannu at wireddu hawliau plant yng Nghymru
- Brwydro dros wasanaethau cynaliadwy o ansawdd a chyfran deg i bob plentyn a pherson ifanc
- Sicrhau sylw a thriniaeth arbennig ar gyfer plant mewn angen a'r rhai sydd ar y cyrion
- Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael llais

Corff o aelodau yw Plant yng Nghymru ac mae'n darparu ystod o wasanaethau a luniwyd i sicrhau bod yr aelodau'n cael gwybod am ddatblygiadau newydd, ac i hwyluso ymatebion ar y cyd. Rydym ni'n elusen gofrestredig ac yn sefydliad anllywodraethol, annibynnol. Rydym hefyd yn cael ein hariannu o dan y Grant Datblygu Plant a Theuluoedd gan Lywodraeth Cymru ar brosiect tair blynedd i leihau anghydraddoldebau o ran iechyd, addysg a chanlyniadau economaidd i blant sy'n byw mewn tlodi, drwy weithio o dan yr amcanion canlynol:

- Hysbysu a galluogi plant a phobl ifanc i gyfranogi'n effeithiol a sicrhau bod Gweinidogion a llunwyr polisi yn clywed eu barn
- Sicrhau bod y gweithlu plant a phobl ifanc yn cael gwybod am hawl plant i gyfranogi, a bod strwythurau yn eu lle sy'n hwyluso rhannu dulliau cyfranogi effeithiol
- Cefnogi gweithlu amlasiantaeth, traws-sector sy'n fwy gwybodus ac wedi ymgysylltu'n well, gan gynnwys llunwyr polisi ac ymarferwyr i gyflawni Polisi Llywodraeth Cymru
- Dylanwadu'n effeithiol a chyfrannu at ddatblygu polisi ac ymarfer, gyda phwyslais ar ymyrraeth gynnar, ataliaeth a lliniaru tlodi, wedi'i seilio ar flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru

Cafodd Plant yng Nghymru flwyddyn brysur a chynhyrchiol yn ystod 2016-2017, gan fod ein menter Cymru Ifanc yn tyfu ac yn datblygu, a gwaith prosiect ym meysydd gallu ariannol a gofal cymdeithasol, ochr yn ochr â'n gwaith datblygu, rhwydweithiau, dylanwadu ac ymgyrchu, a'n gwasanaethau gwybodaeth i'r aelodau.

Mae wedi bod yn flwyddyn o newid yn wleidyddol, ac yn sgîl datblygiadau newydd fel y bleidlais i adael yr Undeb Ewropeaidd a chyfnod Cynulliad newydd, rydym wedi dwysáu ein hymdrechion i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael rhoi eu barn ar y penderfyniadau a fydd yn effeithio ar eu bywydau.

Mae'r adroddiad hwn yn amlygu'r gwaith a wnaethom yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac fe hoffem ni ddiolch i'n haelodau a phawb yn y sector sy'n gweithio gyda ni am eich mewnbwn.

### Cynnwys


| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwell cysylltiadau i blant, pobl ifanc a'r gweithlu | 3-7 | Hyfforddiant | 17-18 |
| Dylanwadu ar ymarfer, polisi, datblygu ac ymchwil | 8-12 | Llywodraethiant | 19 |
| Gwell gwybodaeth i blant, pobl ifanc, teuluoedd a'r gweithlu | 13-14 | Aelodaeth | 20-22 |
| Cynadleddau a digwyddiadau | 15-16 | Crynodeb ariannol | 23 |



Plant yng Nghymru 25 Plas Windsor Caerdydd CF10 3BZ Ffôn: 029 2034 2434 E-bost: info@childreninwales.org.uk
Gwefan: www.plantyngnghymru.org.uk Elusen Gofrestredig Rhif: 1020313 Rhif Cofrestru'r Cwmni: 2805996
Twitter: @plantyngnghymru @YoungWalesCIW Facebook: Young Wales - Cymru Ifanc

Nid yw'r farn a fynegir yn y cyhoeddiad hwn o reidrwydd yn farn Plant yng Nghymru, ac rydym ni'n cadw'r hawl i olygu cyn cyhoeddi.

# Gwell cysylltiadau i blant a phobl ifanc

Cymru Ifanc yw menter gyfranogiad Plant yng Nghymru, a ariannir o dan Grant Cyflawni Llywodraeth Cymru i Blant a Theuluoedd. Yn ystod 2016-17, sefydlwyd y Bwrdd Prosiect Pobl Ifanc sy'n dylanwadu ar waith Cymru Ifanc wrth symud ymlaen. Rydym ni'n gweithio ar y blaenoriaethau canlynol, a nodwyd fel meysydd pwysig gan aelodau'r fforwm ieuenctid.

**Llesiant emosiynol a iechyd meddwl**
Bu iechyd meddwl yn un o flaenoriaethau Cymru Ifanc erioed. Fe'i nodwyd fel blaenoriaeth allweddol gan fforymau ieuenctid lleol, ac mae iechyd meddwl a llesiant emosiynol yn dal i gael eu codi gan bobl ifanc. Cymru Ifanc. Y thema hon sy'n llywio'r rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc (T4CYP).

Datblygodd Cymru Ifanc grŵp i edrych ar iechyd meddwl, a lansiwyd ym mis Hydref 2016, sef y Grŵp Llesiant Emosiynol a Iechyd Meddwl Pobl Ifanc. Nod y Grŵp yw rhoi cyfleoedd i bobl ifanc wneud y canlynol:

- • Rhoi eu barn ar faterion llesiant emosiynol a iechyd meddwl y mae pobl ifanc yng Nghymru yn eu hwynebu
- • Sicrhau bod Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn clywed eu barn
- • Gofalu bod Llywodraeth Cymru yn clywed eu syniadau ynghylch sut mae sicrhau bod llesiant yn ganolog i'r cwricwlwm newydd




Cyfarfu'r grŵp ym mis Rhagfyr a mis Ionawr i drafod taflen newydd sy'n cael ei datblygu gan y rhaglen T4CYP i helpu plant a phobl ifanc i ddeall beth i'w ddisgwyl os byddan nhw'n cael eu hatgyfeirio i CAMHS.






**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**
Nodwyd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel un o flaenoriaethau Cymru Ifanc eleni. Mae'r gwaith yma'n edrych ar wella llesiant diwylliannol, economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol yng Nghymru a chynaliadwyedd hynny yn y tymor hir. Bydd gwaith Cymru Ifanc yn y maes hwn yn canolbwyntio ar newid yn yr hinsawdd.

Daeth 30 o bobl ifanc o bob rhan o Gymru i gyfarfod gyda Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, yn gynnar ym mis Ionawr. Roedd y sesiwn Holi ac Ateb yn gyfle i'r Comisiynydd roi diweddariad i'r bobl ifanc ynghylch Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a'r gwaith mae hi'n ei gynllunio, gan ddefnyddio'r saith Nod llesiant a'r pum ffordd o weithio.

**Gwrthfwlio a throseddau atgasedd**
Mae gwrthfwlio yn parhau'n flaenoriaeth allweddol ar gyfer pobl ifanc, sy'n nodi bwlio fel maes pryder aruthrol. Mae pobl ifanc yn teimlo bod angen mwy o addysg ac ymwybyddiaeth ynghylch efeithiau bwlio a chysylltiadau cryfach rhwng cymunedau, gwasanaethau cymunedol ac ysgolion i atal bwlio yn y ffordd orau bosib a mynd i'r afael â'i effeithiau.
Mae Cymru Ifanc yn hwyluso Rhwydwaith Gwrthfwlio a fu'n cyfarfod ar hyd y flwyddyn, ac sy'n ceisio gweithio ar y cyd â'r Grŵp Atal Ymddygiad Bwlio yn Llywodraeth Cymru, a sefydliadau eraill, i hyrwyddo negeseuon gwrthfwlio a dull seiliedig ar hawliau o ymdrin â gwaith gwrthfwlio. Datblygodd y grŵp arolwg i gefnogi Wythnos Gwrthfwlio eleni. Mae Cymru Ifanc hefyd wedi ymgynghori â phobl ifanc ar gyfer adolygiad Llywodraeth Cymru o'r canllawiau gwrthfwlio Parchu Eraill.
Trefnodd Cymru Ifanc weithdy theatr fforwm yn rhad ac am ddim ar gyfer pobl ifanc. Roedd y cynhyrchiad, o'r enw 'Real Human Being', yn canolbwyntio ar fwlio a throseddau atgasedd ar sail anabledd, gan gynnwys rôl y sawl sy'n sefyll gerllaw. Cynhaliwyd y gweithdy i gyd-ddigwydd ag Wythnos genedlaethol Gwrthfwlio, sy'n amlygu materion yn y maes hwn. Bu Cymru Ifanc yn gweithio mewn partneriaeth â Chwmni Theatr Taking Flight ac Atradius UK, oedd yn noddi'r diwrnod.

**Datblygu'r cwricwlwm**
Mae pobl ifanc wedi nodi datblygu'r cwricwlwm fel un o flaenoriaethau Cymru Ifanc. Mae cam-drin domestig a pherthnasoedd iach yn dal i fod yn ffocws pendant yn rhaglen waith Cymru Ifanc, gyda chysylltiadau penodol â'r datblygiadau fel rhan o'r cwricwlwm newydd ac ABCh.

Mae Cymru Ifanc yn aelod o is-grŵp y Rhanddeiliaid Strategol Plant a Phobl Ifanc, gan sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed wrth i'r cwricwlwm newydd gael ei ddatblygu a'i roi ar waith. Yn y cyfarfod diwethaf nododd y grŵp fod angen sicrhau bod barn a lleisiau'r plant a'r bobl ifanc sy'n cael eu haddysgu gartref yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau.

**CCUHP**
Mae pobl ifanc yn dal i nodi hawliau plant fel blaenoriaeth allweddol i Cymru Ifanc. Yn benodol, mae pobl ifanc yn teimlo bod angen gwella'r ymwybyddiaeth a'r addysg ynghylch hawliau plant er mwyn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn gwybod am eu hawliau a sut mae cael mynediad iddyn nhw.

Ym mis Mai 2016, bu Cymru Ifanc yn bresennol mewn sesiwn yng Ngenefa fel rhan o'r broses adrodd ar hawliau plant, lle bu Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ymateb i faterion a godwyd yn y sesiynau tystiolaeth.

Rhoddwyd cyfle i gynrychiolwyr o Fforwm Ieuenctid Merthyr Tydfil a Lleisiau o Ofal Cymru gyflwyno tystiolaeth yn uniongyrchol i aelodau'r Pwyllgor ynghylch amrywiaeth o bryderon sydd gan blant a phobl ifanc.




**Senedd Ieuenctid y Deyrnas Unedig**
Ar 11 Tachwedd 2016, bu Cymru Ifanc yn cefnogi 18 Aelod Cymru o Senedd Ieuenctid y Deyrnas Unedig i gymryd rhan yn nhrafodaeth flynyddol y Senedd Ieuenctid yn Siambr Tŷ'r Cyffredin.

Mae Senedd Ieuenctid y Deyrnas Unedig yn rhoi cyfle i Aelodau'r Senedd Ieuenctid drafod pynciau sy'n destun pleidlais gan bobl ifanc wrth baratoi ar gyfer y digwyddiad.

Bu Cymru Ifanc yn hwyluso hyfforddiant a dadl ffug ymlaen llaw i helpu i baratoi'r bobl ifanc ar gyfer y diwrnod. Bu 276 aelod etholedig Senedd Ieuenctid y Deyrnas Unedig (11-18 oed) o bob rhan o'r Deyrnas Unedig yn trafod y materion amlycaf oedd yn effeithio ar bobl ifanc, yn ôl pleidlais y bobl ifanc yn y digwyddiad. Dan gadeiryddiaeth Llefarydd Tŷ'r Cyffredin, y Gwir Anrhydeddus John Bercow AS, pleidleisiodd Aelodau'r Senedd Ieuenctid dros ymgyrchu i gael pleidleisio'n 16 oed a sicrhau cwricwlwm am oes yn 2017.

Cynhadledd Flynyddol Cymru Ifanc
Ymunodd mwy na 120 o bobl ifanc o bob rhan o Gymru â ni yn ein hail Gynhadledd Flynyddol a gynhaliwyd yng Nghaerdydd yn ystod hanner tymor, ddydd Mawrth 21 Chwefror 2017.

Cafodd y gynhadledd ei chynllunio a'i chyflwyno gan bobl ifanc o'r Bwrdd Prosiect Pobl Ifanc sy'n dylanwadu ar waith Cymru Ifanc ac yn ei arwain. Cadeiryddion y digwyddiad oedd Samuel Taylor a Fateha Ali. Roedd tua 50% o'r cyfranogwyr ifanc yn dod o fforymau a chynghorau ieuenctid mewn gwahanol rannau o Gymru.

Cafodd yr holl bobl ifanc oedd yn y Gynhadledd gyfle i gymryd rhan mewn pedwar gweithdy yn ystod y dydd, oedd yn rhoi sylw i feysydd blaenoriaeth Cymru Ifanc. Yn y prynhawn, cafwyd neges fideo gan Carl Sargeant, AC ac Ysgrifennydd Cabinet dros Gymunedau a Phlant, a chyflwyniad gan Gomisiynydd Plant Cymru.

Digwyddiadau
Bu Cymru Ifanc yn cymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn, gan roi cyfle i ni weithio gyda sefydliadau eraill a chasglu barn plant a phobl ifanc ar y pynciau oedd yn destun i'n gwaith. Dyma rai o'r digwyddiadau y buom ni'n ymwneud â nhw:


- Gwobrau Rhagoriaeth Ieuenctid 2016
- Eisteddfod yr Urdd 2016
- Cynhadledd Eurochild: Mae Hawliau Plant yn Bwysig
- Cynhadledd Cadw Pethau'n Gyfartal (Keeping It Equal)
- Eisteddfod Genedlaethol 2016
- Mis Hanes Du
- Digwyddiad Eurochild i ddatblygu strategaeth Cyfranogiad
- Pride Cymru

**Adnewyddu Safonau Cyfranogiad Cymru**
Yn ystod haf 2016, bu Plant yng Nghymru yn gweithio gyda gweithwyr cyfranogiad Fforymau Ieuenctid i greu fersiwn wedi'i hadnewyddu o Safonau Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc.

Mae'r Safonau'n nodi'r prif feysydd y dylai gweithwyr proffesiynol a sefydliadau fod yn ymwybodol ohonynt wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru. Cyhoeddwyd y fersiwn newydd o'r safonau ym mis Tachwedd 2016.

Bu gweithwyr cyfranogiad Fforymau Ieuenctid a Cymru Ifanc yn gweithio i ddiwygio'r safonau yn unol â'r syniadau a'r mewnwelediad a gasglwyd yn ystod ymgynghoriad â phobl ifanc ar draws y wlad. Mae'r saith safon yn cysylltu'n amlwg â'r agenda hawliau plant yng Nghymru.

Dilynir y safonau gan ganllawiau diwygiedig ar y broses nod barcud a'r offer hunanasesu, i'w defnyddio mewn awdurdodau lleol sydd â thîm arolygu. Anogir sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc i gyflawni'r broses hunanasesu i ddangos eu bod yn bodloni'r Safonau Cyfranogiad yn eu holl waith gyda phlant a phobl ifanc.



# Gwell cysylltiadau i deuluoedd a'r gweithlu

Mae Plant yng Nghymru yn hwyluso rhwydweithiau sy'n dod â gweithwyr proffesiynol at ei gilydd i drafod materion polisi ac ymarfer. Trwy'r rhwydweithiau hyn rydym ni'n rhoi gwybod i aelodau am ddatblygiadau newydd, yn rhannu arfer da, ac yn datblygu persbectif priodol ar ddatblygiadau polisi. Mae'r rhain yn cynnwys:

**Grŵp Swyddogion Polisi y Trydydd Sector**
Hwylusir Grŵp Swyddogion Polisi y Trydydd Sector i ganfod materion allweddol ar gyfer ymgyrchoedd a dylanwadu ar weithgaredd.

**Grŵp Cyfnewid Ymarfer Eiriolaeth**
Mae'r Grŵp Cyfnewid Ymarfer Eiriolaeth yn gyfle i ymarferwyr yn y maes rannu ymarfer, profiad a gwybodaeth am eiriolaeth a meysydd cysylltiedig. Mae'n cyfrannu at wella datblygiad ymarfer eiriolaeth ledled Cymru.

**Rhwydwaith Darparwyr Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru Gyfan**
Nod Rhwydwaith Darparwyr Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru Gyfan yw hybu gwaith partneriaeth a strategaethau datblygiadol rhwng sefydliadau.

**Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector (TSANA)**
Plant yng Nghymru yw cadeirydd Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector (TSANA). Grŵp yw hwn o sefydliadau gwirfoddol sy'n ceisio diogelu a hybu hawliau plant ag anghenion ychwanegol yng Nghymru.

**Fforwm ar gyfer Darparu Gwasanaeth Integredig**
Mae'r Fforwm ar gyfer Darparu Gwasanaeth Integredig yn dod â gweithwyr proffesiynol ynghyd ar draws Cymru sy'n arwain datblygiad y Tîm o Gwmpas y Teulu, fel rhan o raglen Teuluoedd yn Gyntaf Llywodraeth Cymru. Nod y fforwm yw cynnig cefnogaeth cymheiriaid i reolwyr sy'n ymwneud â datblygu gwasanaethau lleol.

**Rhwydwaith y Cydlynwyr Rhianta**
Mae'r Rhwydwaith Cydlynwyr Rhianta yn rhwydwaith ar gyfer y rhai sydd â rôl gydlynu strategol ym maes cymorth rhianta yn eu Hawdurdod Lleol. Mae'r cyfarfodydd chwarterol yn gyfle i'r cydlynwyr rannu materion, atebion, ymchwil a pholisi gyda'u cydweithwyr.

**Grŵp Atal Ymddygiad Bwlio**
Nod Grŵp Atal Ymddygiad Bwlio Plant yng Nghymru yw sicrhau bod polisïau sy'n ymwneud â'r agenda gwrthfwlio, mewn ysgolion a chymunedau, yn cael eu gwerthuso a'u cydlynu.

**Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru**
Mae Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru yn glymblaid o sefydliadau sy'n ymwneud â thlodi plant. Mae'n lobïo dros bolisïau ar bob lefel yn y llywodraeth sy'n cyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru.

**Grŵp Adolygu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (AWCPP)**
Mae gan Grŵp Adolygu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan fandad a chynrychiolaeth o holl Fyrddau Diogelu Plant lleol a rhanbarthol Cymru ac asiantaethau partner i adolygu'r Grŵp hwn. Mae'r grŵp hefyd yn cynhyrchu protocolau ategol a chanllawiau ymarfer, ar sail Cymru gyfan, gan ddarparu llwyfan ar gyfer rhannu arfer da ledled Cymru.

**Rhwydwaith Rheolwyr Dechrau'n Deg**
Mae'r Rhwydwaith Dechrau'n Deg yn cwrdd bob chwarter, sy'n golygu bod Rheolwyr Dechrau'n Deg y 22 Awdurdod Lleol yn dod at ei gilydd. Hefyd mae cyfarfodydd ychwanegol a gweithdai'n cael eu trefnu yn ôl y galw. Mae'r Rhwydwaith Dechrau'n Deg yn cynnwys holl reolwyr y rhaglen mewn Awdurdodau Lleol yn ogystal â rheolwyr Llywodraeth Cymru.

**Rhwydwaith Gweithwyr Gofalwyr Ifanc**
Mae'r Rhwydwaith Gweithwyr Gofalwyr Ifanc yn rhannu materion a phryderon ac yn cefnogi datblygiad arfer da. Mae'r Rhwydwaith hefyd yn cefnogi rhwydwaith gofalwyr ifanc sy'n dod at ei gilydd i nodi'r prif faterion sy'n destun pryder ac yn cael cyfle i gyflwyno'r pryderon hynny i'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yn flynyddol.

**Grŵp Seneddol yr Holl Bleidiau i Blant yng Nghymru**
Mae'r Grŵp Seneddol Trawsbleidiol i Blant yng Nghymru yn dod ag AS Cymru ac Arglwyddi ynghyd i drafod materion sydd heb eu datganoli. Mae Plant yng Nghymru yn gweithredu fel ysgrifenyddiaeth i'r grŵp hwn.

**Grŵp Trawsbleidiol i Blant yng Nghymru**
Mae'r Grŵp Trawsbleidiol i Blant yng Nghymru yn dod ag Aelodau Cynulliad a phartïon â diddordeb ynghyd i drafod materion pwysig sydd wedi datganoli.

**Grŵp Polisi Plant Anabl**
Y Grŵp Polisi Plant Anabl sy'n dylanwadu ar bolisi cyhoeddus yng Nghymru ym maes plant a phobl ifanc anabl.

**Grŵp Cyfnewid Ymarfer Plant a Theuluoedd a Grŵp**
Cyfnewid Ymarfer Hawliau Plant a Phobl Ifanc
Mae'r grwpiau hyn yn cwrdd ledled Cymru i rannu arfer da a datblygu gwaith sy'n ymwneud â chyfranogiad a hawliau plant.

## Dylanwadu ar ymarfer, datblygu polisi ac ymchwil

**Siarad, Dysgu, Gwneud: Rhieni, Plant ac Arian**
Bu Plant yng Nghymru yn hwyluso astudiaeth beilot ar allu ariannol o'r enw Siarad, Dysgu, Gwneud: Rhieni, Plant ac Arian. Cychwynnodd y prosiect ym mis Hydref 2015 dan arweiniad y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, Plant yng Nghymru a phartneriaid eraill.

Daeth y cyflwyno uniongyrchol ar Siarad, Dysgu, Gwneud i ben ym mis Ebrill 2017, ynghyd â gwaith Plant yng Nghymru yn cydlynu'r prosiect. I ddathlu gwaith yr ymarferwyr a fu'n cyflwyno'r rhaglen, fe drefnon ni ddau ddigwyddiad yn ystod mis Mawrth yng Nghaerdydd a Wrecsam.

Mae'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol wedi cytuno i ganiatáu i bartneriaid gyflwyno rhagor o sesiynau Siarad, Dysgu, Gwneud yn ystod tymor yr haf 2017, a sicrhau bod y deunyddiau ar gyfer y sesiynau ar gael rhwng nawr a diwedd y gwerthusiad effaith yn 2018.

Bydd y Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid cyflwyno, gyda golwg ar sicrhau etifeddiaeth trwy ddefnyddio adborth o'r prosiect i fwydo i'r Rhwydwaith Cyngor Cenedlaethol, i hyrwyddo'r adnoddau a ddatblygwyd ar gyfer prosiect peilot, ac i gefnogi gallu ariannol fel rhan o'r rhaglenni rhianta lle bo angen hynny fwyaf.

**Prosiect Ymwneud yn Fwy â Gofal Cymdeithasol**
Menter newydd sy'n cael ei datblygu gan Plant yng Nghymru yw'r prosiect Ymwneud yn Fwy â Gofal Cymdeithasol. Prosiect tair blynedd yw hwn sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, yn edrych ar gefnogi iechyd a llesiant plant sy'n derbyn gofal, plant a phobl ifanc anabl a gofalwyr sy'n berthnasau.

Cychwynnodd y prosiect ym mis Ebrill 2016. Mae Plant yng Nghymru yn gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal, plant anabl a gofalwyr sy'n berthnasau i gynhyrchu canllawiau ar-lein a fydd yn rhoi gwybod i bobl ifanc am eu hawliau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ac yn dod â grwpiau ynghyd er mwyn cefnogi a dysgu oddi wrth ei gilydd.

**Cadw Plant yn Ddiogel 2017**
Datblygodd Plant yng Nghymru, mewn partneriaeth â Iechyd Cyhoeddus Cymru, becyn offer newydd diogelwch plant ar gyfer 2017. Mae'r pecyn offer newydd cyffrous hwn, sy'n ceisio lleihau nifer yr anafiadau anfwriadol ymhlith plant o dan 5 oed, yn




darparu'r holl adnoddau angenrheidiol i'ch sefydliad a'ch ymarferwyr gyflwyno blwyddyn gyfan o wybodaeth a chyngor diogelwch plant i rieni.

Datblygwyd y pecyn offer Cadw Plant yn Ddiogel i ymateb i anghenion ymarferwyr, a ddywedodd: "Rydyn ni'n gwybod y dylen ni wneud rhywbeth, ond does gennym ni ddim amser i ddatblygu unrhyw beth, a dydyn ni ddim yn siŵr beth i'w wneud na sut mae mynd ati. Mae arnon ni angen rhywbeth y gallwn ni afael ynddo a'i ddefnyddio ar unwaith". Ymhlith y materion sy'n derbyn sylw yn y pecyn offer mae gwenwyn nicotîn, syrthio, sgaldio, cortynnau bleinds a sachau cewynnau.

**Tlodi Plant a Theuluoedd yng Nghymru: Canlyniadau Arolwg Plant a Theuluoedd 2016**
Yn dilyn ein hadroddiad ar dlodi plant a theuluoedd yn 2014 a'r arolwg dilynol yn 2015, fe gynhalion ni arolwg o'r aelodau a'r gweithlu ehangach eto eleni, yn edrych eto ar y materion a godwyd er mwyn canfod a oedd pethau wedi newid ers cyhoeddi'r adroddiad.
Ym mis Mawrth eleni cyhoeddwyd crynodeb o ganlyniadau'r gwaith hwn yn y ddogfen Tlodi Plant a Theuluoedd yng Nghymru: Canlyniadau o Arolwg Plant a Theuluoedd 2016. Rhennir yr adroddiad hwn yn chwe adran, sy'n canolbwyntio ar y themâu canlynol: Effaith diwygio lles, tlodi bwyd, dyled, cyflogaeth ac incwm ansicr, tai, a'r 'premiwm tlodi'. Mae'r adroddiad hefyd yn manylu ar faterion pellach sydd wedi effeithio ar aelwydydd ers yr arolwg gwreiddiol.




**Plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol**
Plant yng Nghymru yw cadeirydd TSANA (Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector), sef grŵp o sefydliadau gwirfoddol sy'n ceisio diogelu a hybu hawliau plant ag anghenion ychwanegol yng Nghymru.

Ar hyd 2016/17 daliodd Plant yng Nghymru ati i weithio yn y rôl hon gyda Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill er mwyn dylanwadu ar ddeddfwriaeth, polisi ac ymarfer yng Nghymru, i sicrhau bod modd i blant ag anghenion ychwanegol gyrchu'r gefnogaeth angenrheidiol i gyflawni hyd eithaf eu potensial. Roedd hyn yn cynnwys cwrdd â swyddogion Llywodraeth Cymru i helpu i ddylanwadu ar ddatblygiad y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru).

**Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd**
Mae gan Plant yng Nghymru gontract trwy Lywodraeth Cymru gyda'r rhwydwaith Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd (GGD) i ddarparu gwybodaeth ac adnoddau i helpu gyda'u gwaith, gan gynnwys e-friffiad misol a chynhadledd flynyddol. Mae'r contract hwn bellach wedi cael ei estyn am flwyddyn arall.

Roedd y gynhadledd flynyddol a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2017 yn canolbwyntio ar faterion perthnasol i GGD, gan gynnwys datblygu Parthau Plant, Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) yng Nghymru, Cymru Well Wales, Cynnig Gofal Plant Cymru, a Rhianta Cadarnhaol.

**IRM Cymru**
Mae Mecanwaith Adolygu Annibynnol (IRM) Cymru yn adolygu penderfyniadau a wnaed ynghylch achosion maethu a mabwysiadu yng Nghymru. Mae'r penderfyniad terfynol ynghylch cymeradwyo yn dal yn nwylo'r asiantaeth, ond mae'n rhaid iddynt roi sylw i farn y panel IRM wrth wneud eu penderfyniad terfynol.

Mae'r gwasanaeth hwn bellach wedi'i wreiddio yng ngwaith Plant yng Nghymru. Rhyddhawyd tendr i gyflwyno'r gwasanaeth IRM ar gyfer 2017-18 a bu Plant yng Nghymru yn llwyddiannus yn eu cais am hynny. Dyfarnwyd y gwaith i Plant yng Nghymru ar gyfer 2017-18 gyda'r posibilrwydd o estyn am flwyddyn arall.

Cafodd yr IRM wyth cais yn 2016-17; derbyniwyd saith ohonynt, a thynnwyd un yn ôl.

Roedd saith o'r ceisiadau'n ymwneud â gofalwyr maeth (yr oedd dau ohonynt yn ofalwyr maeth posibl oedd yn berthnasau); roedd tri'n ymwneud ag addasrwydd cychwynnol, pump yn ymwneud â bwriad i ddadgofrestru, ac roedd un gan ddarpar fabwysiadwr yr oedd yr asiantaeth 'yn debygol o beidio â'i gymeradwyo'.

Gallwch ddysgu mwy am waith IRM Cymru yn www.irm.cymru.

# Dylanwadu ar ymarfer a datblygu polisi: Cynrychiolaeth

Mae Plant yng Nghymru yn cael eu cynrychioli ar nifer o grwpiau ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig. Mae hynny'n golygu ein bod ni'n gallu bwydo i ddatblygiad polisi ac ymarfer. Yn ystod 2016-17, buon ni'n ymwneud â'r grwpiau canlynol:

**Llywodraeth Cymru**

- Bwrdd Partneriaeth Ystum Corff a Symudedd Cymru Gyfan
- Grŵp Arweinyddiaeth Gwrthfwlio
- Cynnig Gofal Plant i Gymru: Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid
- Grŵp Ymgynghorol Rhanddeiliaid CAFCASS Cymru
- Grŵp Ymgynghorol Cyflwyno CAMHS
- Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gofal Preswyl Plant
- Grŵp Ymgynghorol Hawliau Plant
- Is-grŵp Plant Bwrdd Gweithrediadau/Tasglu Gweinidogol Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches
- Grŵp Ymgynghorol y Gwasanaeth Golwg Plant
- Rhwydwaith y Gweithlu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Bwrdd Cyflawni Gwasanaethau Effeithiol i Blant Agored i Niwed
- Grŵp Ymgynghorol Rhanddeiliaid Cynhwysiad Ariannol
- Bwrdd Rhaglen Gydweithredol y 1000 diwrnod cyntaf
- Grŵp Gweithredu Gwneud Pethau'n Iawn
- Grŵp Ymgynghorol Gweinidogol Gwella'r Canlyniadau gan Blant
- Fframwaith Mesur Perfformiad Awdurdodau Lleol – Gorchwyl a Gorffen
- Grŵp Marchnata MEIC
- Grŵp Strategol Cenedlaethol Adolygu'r Cwricwlwm
- Fframwaith Gwella Newydd a Grŵp Llywio Cytgord Newydd – Gwasanaethau Cymdeithasol
- Digwyddiadau Gwasanaethau Cyhoeddus
- Fforwm Partneriaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Bwrdd Arweinyddiaeth Strategol y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Grŵp Ymgynghori Gweinidogol Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Tasgluoedd Rheoleiddio ac Arolygu'r Gwasanaethau Cymdeithasol
- Gwasanaethau Cymdeithasol – Tîm Cyflawni Cryf a Phroffesiynol
- Gwobrau Gofal Cymdeithasol Cyngor GOFAL Cymru
- Bwrdd Ymgynghorol Camddefnyddio Sylweddau
- Grŵp Rhanddeiliaid Trafod Gofal (Talk Care) – Datblygu Fframwaith Canlyniadau i'r GIG
- Grŵp Ymgynghori Allanol Trechu Tlodi
- Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector a Chyfarfodydd Cysylltiedig
- Grŵp Cyllid a Chydymffurfio Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector
- Bwrdd y Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc
- Rhwydwaith Ymgynghorol Diogelu ac Amddiffyn
- Pan fydda i'n Barod – Tasglu mewn Gofal Preswyl

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

- Y Grŵp Trawsbleidiol ar Anabledd
- Pwyllgor Rhanddeiliaid Newid yn yr Hinsawdd
- Y Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi Tanwydd
- Y Grŵp Trawsbleidiol ar Blant sy'n Derbyn Gofal

**Y Deyrnas Unedig**

- Y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant
- Bwrdd Rheoli Dileu Tlodi Plant

**Awdurdodau Lleol**

- Rhwydwaith Cyngor Sir y Fflint
- Is-grŵp PPHI Nod Craidd 7 Conwy
- Derwen – Gwasanaethau Arbenigol i Blant
- Rhwydwaith Cyfranogi Plant a Phobl Ifanc a Theuluoedd Gwynedd

**Academaidd**

- NCPHWR (Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd a Lles Cyhoeddus)
- DECIPHER
- Grŵp Llywio Cynnwys y Cyhoedd
- Grŵp Llywio Y Blynyddoedd Rhyfeddol

**Iechyd**

- Grŵp Cynllunio Gweithredu CAMHS
- Grŵp Llywio'r Rhaglen Mesuriadau Plant
- NLIAH
- Pediatreg a Iechyd Plant RCPCH
- Cynghrair Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Amlasiantaeth/Sawl sector**

- Cyfarfod Rheolwyr Rhwydwaith Anabledd Cymru Gyfan
- Rhwydwaith Cyfarfod Grwpiau Teulu Cymru Gyfan
- Cyfarfod Rhwydwaith Gweithwyr Cyfranogiad Cymru Gyfan
- Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gwella Cyngor Gofal Cymru
- Grŵp Ymgynghorol Hyfforddiant Strategol Cyngor Gofal Cymru
- Grŵp Llywio Hyder mewn Gofal
- Fframwaith Mesur Canlyniadau Dechrau'n Deg
- Y Gynghrair Tlodi Bwyd

- Grŵp y Glymblaid Tlodi Tanwydd
- Grŵp Cyfryngau Future GEN
- Fforwm Cymru y Gwasanaeth Cynghori Ariannol
- Grŵp Llywio Cenedlaethol Adolygu Marwolaethau Plant a Grwpiau Adolygu Thematig
- Grŵp Llywio Cenedlaethol Gwenwyno yn ystod Plentyndod
- Cyfarfod Gweithwyr Cyfranogiad Gogledd Cymru
- Diwygio AAA yn statudol – Grŵp Amlasiantaeth AAA
- Bwrdd Lleol Diogelu Plant Bro Morgannwg – Hawliau Plant wrth Ddiogelu
- Fforwm Polisi Lleisiau o Ofal
- Cynghrair Addysg Fyd-eang Cymru
- Fforwm Polisi Conffederasiwn GIG Cymru
- Grŵp Rhanddeiliaid Cymru Gyfan Partneriaeth Mudo Strategol Cymru

**Y Trydydd Sector**
- Rhwydwaith Ymlyniad Cymru
- Y Gynghrair Gofalwyr
- ’Sdim Curo Plant
- Y Cyngor Plant Anabl
- Cynghrair Cymorth Uniongyrchol i Ddinasyddion Cyngor Cymru
- Y Glymblaid Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Fforwm Tlodi Tanwydd De Cymru
- Fforwm Tlodi Tanwydd Gogledd Cymru
- Grŵp Llywio Atal Damweiniau yn y Cartref Cymru
- Grŵp Rhanddeiliaid LDAN
- Grŵp Ymgynghorol NEA Cymru
- Fforwm Gallu Ariannol Gogledd Cymru
- Bwrdd Ymddiriedolwyr Chwarae Cymru
- TSANA
- ROCK – Clymblaid Hawliau Plant
- Panel Etholaeth Dysgu a Datblygu Cymunedol Cymwysterau a Sgiliau’r Deyrnas Unedig
- Tasglu’r Weledigaeth ar gyfer Plant sy’n Derbyn Gofal 16/17
- Bwrdd Lleisiau o Ofal a’r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau Dynol
- Cyngor Cymru ar gyfer Cymorth sy’n cael ei Gyfeirio gan y Dinesydd
- Cynghrair Rheoli Tybaco Cymru
- Cynghrair Cynghreiriau WCVA
- Pwyllgor Gweithredol WCVA
- Bwrdd WCVA
- Clymblaid Ffoaduriaid Cymru

**Rhyngwladol**
- Bwrdd Rheoli Eurochild
- Rhwydwaith Partneriaeth Cenedlaethol Eurochild
- Grŵp Llywio Cyfranogiad Eurochild
- Y Fforwm Rhyngwladol ar gyfer Lles Plant



# Dylanwadu ar ymarfer a datblygiad polisi: Ymgynghori



Mae Plant yng Nghymru yn cynhyrchu ymatebion ymgynghori ar ran ein haelodau, ac yn ystod 2016-2017, fe wnaethon ni ymateb i'r ymgyngoriadau canlynol:

**Llywodraeth Cymru: Gweithredu Cyfnod 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016**
- Ymateb ysgrifenedig

**Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Ymchwiliad i Waith Ieuenctid**
- Tystiolaeth ysgrifenedig
- Tystiolaeth lafar

**Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru – blaenraglen waith a blaenoriaethau**
- Tystiolaeth ysgrifenedig (gan Plant yng Nghymru)
- Tystiolaeth ysgrifenedig (gan y Grŵp Darparwyr Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc)
- Tystiolaeth ysgrifenedig (Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector)

**Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Cynulliad Cenedlaethol Cymru – blaenraglen waith a blaenoriaethau**
- Tystiolaeth ysgrifenedig (gan Plant yng Nghymru)
- Tystiolaeth ysgrifenedig (gan Rwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru)

**Pwyllgor Cydraddoldeb Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon – blaenraglen waith a blaenoriaethau**
- Tystiolaeth ysgrifenedig (gan Plant yng Nghymru)
- Tystiolaeth ysgrifenedig (gan Rwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru)

**Adolygiad Cyfnodol Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig**
- Ymateb ysgrifenedig gan Grŵp Monitro CCUHP, Together Scotland a'r CRAE

**Pwyllgor Craffu Ewropeaidd San Steffan – ymchwiliad i 'Brexit'**
- Mewnbwn ar gyfer ymateb ar y cyd gan Brydain Fawr

**Ymgynghoriad Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg – Ymchwiliad i Eiriolaeth Statudol**
- Tystiolaeth ysgrifenedig
- Tystiolaeth lafar

**Ymgynghoriad Cynulliad Cenedlaethol Cymru: y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau – Ymchwiliad i Geiswyr Lloches, Ffoaduriaid a Mudwyr**
- Tystiolaeth ysgrifenedig
- Tystiolaeth lafar

**Llywodraeth Cymru: Ymgynghoriad ar gynllun tlodi tanwydd at y dyfodol a fydd yn ymateb i'r galw, gan olynu Cartrefi Cynnes Llywodraeth Cymru – Nyth**
- Tystiolaeth ysgrifenedig


**Ymgynghoriad Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Adolygiad Donaldson**
- Ymateb ysgrifenedig

**Ymgynghoriad Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Ymgynghoriad ar y goblygiadau i Gymru yn sgîl Prydain yn gadael yr Undeb Ewropeaidd**
- Tystiolaeth ysgrifenedig

**Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: Y 1000 diwrnod cyntaf**
- Ymateb ysgrifenedig

**Cyllid cymorth i fyfyrwyr ar gyfer myfyrwyr sydd fel arfer yn byw yng Nghymru**
- Ymateb ysgrifenedig

# Gwell gwybodaeth i blant, pobl ifanc, teuluoedd a'r gweithlu




**Gwefan Plant yng Nghymru**
Mae gwefan Plant yng Nghymru, sydd i'w chanfod yn www.childreninwales.org.uk, yn darparu newyddion a gwybodaeth am ddatblygiadau yn y sector plant i'n haelodau a'r sector plant ehangach. Mae adran polisi'r wefan yn cynnwys diweddariadau ar ddeddfwriaeth a datblygiadau eraill sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig.

**Gwefan Cymru Ifanc**
Mae gwefan Cymru Ifanc, sydd i'w chanfod yn www.cymruifanc.cymru, yn cefnogi ein gwaith cyfranogiad. Mae'n ganolbwynt gwybodaeth am y gwaith sy'n cael ei wneud gan fforymau ieuenctid, ysgolion, sefydliadau partner ac unigolion ledled Cymru. Mae'r wefan hefyd yn gyfle i ni rannu gwybodaeth am waith Cymru Ifanc a'r cyfleoedd i bobl ifanc chwarae rhan a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed.

**Cylchgrawn Plant yng Nghymru**
Mae cylchgrawn Plant yng Nghymru yn cael ei gyhoeddi bob chwarter ac yn crynhoi datblygiadau polisi Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y Deyrnas Unedig, yn ogystal â'r newyddion diweddaraf gan Plant yng Nghymru a'n haelodau. Mae'n cynnwys erthyglau manwl a chyfweliadau ar bynciau pwysig a cholofnau rheolaidd gan Gomisiynydd Plant Cymru a MEIC Cymru.



**Papurau briffio**
Mae Plant yng Nghymru yn paratoi ac yn dosbarthu briffiadau ar bynciau penodol i'r aelodau. Mae'r rhain yn cynnwys gwybodaeth fanylach am gyfreithiau a pholisïau.

Yn ystod 2016-17, fe wnaethon ni lunio briffiadau ar waith y Pumed Cynulliad, a Symud Cymru Ymlaen, Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru.

**Gwasanaethau e-friffiadau**
Mae Plant yng Nghymru yn cynhyrchu nifer o friffiadau electronig ar gyfer ein haelodau a'n rhwydweithiau.

Mae e-friffiad i'r aelodau yn cael ei ddosbarthu bob wythnos. Mae'n sicrhau bod ein haelodau'n cael y newyddion diweddaraf am y datblygiadau a'r newyddion polisi diweddaraf.

Anfonir llythyr newyddion Cymru Ifanc allan yn fisol, gyda'r diweddaraf o ran newyddion a gwybodaeth i bobl ifanc a gweithwyr cyfranogiad.

Rydym ni hefyd yn cynhyrchu e-friffiadau rheolaidd ar gyfer y Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant a'r rhwydwaith Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd.

**Cyfryngau cymdeithasol**
Mae Plant yng Nghymru yn defnyddio Twitter i hyrwyddo ein gweithgareddau a'n hadnoddau, yn ogystal â pholisi a dogfennau newydd, gan ddefnyddio ein cyfrifon, @childreninwales ac @plantyngnghymru. Ddiwedd mis Mawrth 2017 roedd gennym ni 4796 o ddilynwyr yn Saesneg a 625 yn Gymraeg.

Mae gan ein cyfrif Cymru Ifanc, @youngwalesCIW, 1514 o ddilynwyr. Mae gennym hefyd dudalen Facebook sydd i'w gweld yn Facebook.com/Young-Wales-Cymru-Ifanc.

Desg gymorth a gwasanaethau cyfeirio ymlaen
Mae gan Plant yng Nghymru wasanaeth gwybodaeth a chyfeirio ymlaen ar gyfer aelodau o'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol yn y sector plant. Yn ystod 2016-17 fe roeson ni gyngor ar ystod eang o faterion oedd yn cynnwys gwasanaethau eiriolaeth, darpariaeth gofal plant a chael mynediad i'r rhaglen Dechrau'n Deg, amddiffyn plant, rhianta, a materion cyswllt.



# Cynadleddau a digwyddiadau




Mae Plant yng Nghymru yn trefnu cynadleddau a digwyddiadau yn ystod y flwyddyn i sicrhau bod gan y cynrychiolwyr yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y datblygiadau diweddaraf, a hefyd i ddarparu cyfleoedd i gyfnewid gwybodaeth a rhwydweithio.

Yn ystod 2016/17 cynhaliodd Plant yng Nghymru y digwyddiadau canlynol:

**Digwyddiad Hystingau cyn yr etholiad i'r sector plant, pobl ifanc a theuluoedd, 13 Ebrill 2016, Caerdydd**
Roedd y digwyddiad hystingau hwn yn cynnwys panel o wleidyddion o wahanol bleidiau, a fyddai'n cyflwyno anerchiad byr ac yna'n ateb cwestiynau gan y gynulleidfa.

**Diogelu Plant rhag Profiadau Niweidiol, 25 Mai 2016, Caerdydd**
Bu'r cyfranogwyr yn y gynhadledd hon yn archwilio amrywiaeth o faterion sy'n golygu bod plant a phobl ifanc yn agored i niwed yn ein cymdeithas.

**Seminar Ymdrin â'r Agenda Iechyd yn y Blynyddoedd Cynnar, 18 Mai 2016, Caerdydd**
Yn dilyn ein seminar hanner diwrnod llwyddiannus ym mis Chwefror 2016, bu'r seminar ymarferol hon ar y blynyddoedd cynnar yn canolbwyntio ar yr agenda iechyd cyhoeddus.

**Hawliau a chyfranogiad plant – Beth mae hynny'n ei olygu y dyddiau hyn? 15 Mehefin 2016, Caerfyrddin**
Bu'r gynhadledd hon yn edrych ar yr heriau sy'n wynebu'r rhai sy'n datblygu ymarfer cyfranogol, ac yn arddangos enghreifftiau o arfer arloesol.

**Fforwm flynyddol yn yr Eisteddfod Genedlaethol, 3 Awst 2016, Sir Fynwy**
Eleni, rhoddwyd anerchiad ein fforwm flynyddol gan Mark Drakeford AC, yr Ysgrifennydd Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol. Rhoddodd ddiweddariad ar roi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar waith, ac effeithiau hynny ar blant a phobl ifanc Cymru.

**Cynhadledd Flynyddol Bord Gron: Symud yr Agenda Ymlaen ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd yng Nghymru, 21 Medi 2016, Caerdydd**
Bu ein cynhadledd flynyddol yn hysbysu llunwyr polisi ac yn llewyrchu sbotolau ar y gwahanol themâu polisi ac ymarfer sy'n effeithio ar blant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru.

**Grŵp Atal Ymddygiad Bwlio Plant yng Nghymru –**

**Bwlio yw... fydd ots gan unrhyw un?**
**6 Hydref 2016, Caerdydd**
Roedd ein digwyddiad gwrthfwlio yn gyfle i'r rhai oedd yn bresennol ddweud wrthym ni beth oedd eu syniadau ynghylch gwella gwaith gwrthfwlio ledled Cymru.

**Cynnwys y Trydydd Sector wrth Wella Llesiant Emosiynol a Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru, 21 Hydref 2016, Caerdydd a 27 Hydref 2016, Conwy**
Roedd y digwyddiad hwn yn helpu cyrff trydydd sector i ddeall y Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc (T4CYP), ac yn gyfle i'r cynrychiolwyr ddweud wrthym ni am bryderon a materion mae sefydliadau yn eu hwynebu wrth weithio i wella iechyd meddwl ac emosiynol.

**Seminar Plant yng Nghymru 'Diwygio'r Fframwaith Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghymru', 16 Tachwedd 2016, Caerdydd**
Bu'r gynhadledd hon yn edrych ar ddiwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghymru, cyn cyflwyno'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru).



*"Fe wnes i fwynhau'r tasgau a'r gweithdai'n fawr.*

*Roedd yn ailgynnau fflam a'r rhesymau pam roeddwn i wrth fy modd yn gweithio yn Dechrau'n Deg gyda rhieni a'u plant."*

*Cynrychiolydd yn ein cynhadledd Rianta.*

**Cymunedau cydnerth a'r trydydd sector,**
**18 Ionawr 2017, Caerdydd**
Yn dilyn y cyhoeddiad gan yr Ysgrifennydd Cabinet dros Gymunedau a Phlant ynghylch dull newydd o greu cymunedau cydnerth, bu'r gynhadledd hon yn edrych ar rôl y trydydd sector wrth symud ymlaen.

**Cynhadledd Rhianta 2017, 15 Chwefror 2017, Caerdydd**
Bu'r gynhadledd hon yn canolbwyntio ar sut mae datblygu sgiliau'r bobl sy'n gweithio i gefnogi rhieni a gofalwyr.

**Cynhadledd Flynyddol Cymru Ifanc, 21 Chwefror 2017, Caerdydd**
Cafodd Cynhadledd Flynyddol Cymru Ifanc ei datblygu a'i chynnal gan y Bwrdd Prosiect Pobl Ifanc sy'n llywio gwaith Cymru Ifanc. Roedd yn gyfle i bawb oedd yn bresennol ddysgu mwy am flaenoriaethau pobl ifanc, gan gynnwys iechyd meddwl, bwlio, newid yn yr hinsawdd ac addysg.

**Cynhadledd y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd,**
**15 Mawrth 2017, Caerdydd**
Bu'r gynhadledd hon yn edrych ar y datblygiadau cyfredol a fydd yn dylanwadu ar Wasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn ystod y flwyddyn sy'n dod, gan gynnwys Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, datblygiad Parthau Plant, estyn gwasanaethau gofal plant a datblygiadau diweddar o ran cymorth rhianta.

# Hyfforddiant




Mae Plant yng Nghymru yn darparu cyrsiau hyfforddi amlddisgyblaeth sy'n ceisio hybu dull gweithredu integredig ar gyfer pawb sy'n gweithio yn y sector statudol, y trydydd sector a'r sector annibynnol. Mae'r cyrsiau'n tynnu ar adnoddau ein tîm arbenigol ein hunain o staff, a rhwydwaith cenedlaethol o unigolion a chyrff arbenigol, er mwyn darparu digwyddiadau hyfforddi o ansawdd uchel mewn amrywiaeth o leoliadau ledled Cymru. Mae ein cyrsiau hyfforddi wedi'u bwriadu ar gyfer pobl sy'n gweithio yng Nghymru, ac yn adlewyrchu'r cyd-destun Cymreig.

**Hyfforddiant Agored**

Yn ystod 2016-17, cynhaliodd Plant yng Nghymru raglen gynhwysfawr o 78 cwrs hyfforddi agored. Roedd ein rhaglen hyfforddi yn cynnwys amrywiaeth uchelgeisiol o bynciau, megis diogelu, camfanteisio'n rhywiol ar blant, rhoi cyfranogiad ar waith, lleihau nifer y damweiniau yn y cartref yn ystod y blynyddoedd cynnar, ymwybyddiaeth ddiwylliannol wrth ddiogelu, arferion traddodiadol niweidiol, gweithio gyda phobl ifanc LHDTQ a chyfweliadau llawn cymhelliant. Mae'r rhestr lawn o gyrsiau hyfforddi agored i'w gweld yn archif hyfforddiant ein gwefan, http://www.childreninwales.org.uk/our-training/training-archive/.

**Achrediad**

Rydym ni'n gallu cynnig cyrsiau hyfforddi wedi'u hachredu ar amrywiaeth o bynciau, gydag Agored Cymru yn gorff dyfarnu. Rydym yn dal i dderbyn adroddiadau rhagorol gan Agored Cymru, a dyma'r hyn a nodwyd gan yr Adolygwyr Ansawdd:

"Mae cyswllt y ganolfan yn parhau i reoli system sicrhau ansawdd fewnol sy'n effeithiol ac yn gadarn. Mae pob awgrym ar gyfer gwelliant wedi cael eu gweithredu ers Asesiad Ansawdd Allanol 2014-15 ac o ganlyniad nid oes camau gweithredu gofynnol ar gyfer 2016-17.

Mae'r Rheolwyr Ansawdd yn gwbl hyderus y bydd y ganolfan hon yn parhau i gynnig darpariaeth o ansawdd uchel.

Mae'r adborth gan yr aseswr yn gadarnhaol, yn galonogol, yn ddatblygiadol ac yn adeiladol lle bo hynny'n berthnasol. Mae dyfarniadau'r aseswr yn rhai cadarn."

**Hyfforddiant a gomisiynwyd**

**Mae Plant yng Nghymru yn darparu hyfforddiant wedi'i gomisiynu ar gyfer sefydliadau sydd am gael cwrs wedi'i deilwra i'w hanghenion.**



Ymhlith y pynciau craidd mae Plant yng Nghymru'n darparu hyfforddiant yn eu cylch mae amddiffyn plant ar wahanol lefelau sy'n amrywio o 'gynyddu ymwybyddiaeth' sylfaenol i gyrsiau wedi'u bwriadu ar gyfer y rhai sy'n darparu rôl Person Dynodedig. Cyrsiau eraill poblogaidd yw Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol, Hawliau a Chyfranogiad Plant, Meithrin Gwydnwch Pobl Ifanc ac E-ddiogelwch. Rydym hefyd yn datblygu hyfforddiant mwy unigryw os nad yw'r pwnc dan sylw yn rhan o'n rhaglen safonol. Darparwyd 82 o gyrsiau hyfforddi wedi'u comisiynu yn ystod 2016-17.

**Hyfforddiant amddiffyn plant i ymarferwyr deintyddol**
Mae Plant yng Nghymru yn parhau â'r rhaglen lwyddiannus i gyflwyno hyfforddiant amddiffyn plant i'r holl staff mewn deintyddfeydd a Chanolfannau Ôl-raddedig yng Nghymru. Rydym wedi'n contractio i ddarparu hyfforddiant Amddiffyn Plant Lefel 2 i Ddeoniaeth Cymru ar gyfer Addysg Ôl-raddedig i Ddeintyddion. Fe gyflwynon ni 55 o sesiynau hyfforddiant amddiffyn plant i ymarferwyr deintyddol ledled Cymru rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2017.

**Grant Cyflawni i Blant a Theuluoedd – Llywodraeth Cymru**
O dan y grant hwn gan Lywodraeth Cymru bu'r tîm hyfforddi yn cyflwyno 8 sesiwn am ddim ledled Cymru i gynyddu ymwybyddiaeth a sgiliau mewn technegau cyfranogol wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc.

Ar ben hynny, fe wnaethom ni gyflwyno pedair sesiwn am ddim dan y teitl Y Darlun Mwy, yn archwilio polisi a deddfwriaeth plant a theuluoedd. Nod y gweithdai amlasiantaeth hyn oedd cefnogi amrywiaeth o sefydliadau i ddeall yn well sut mae eu gwaith yn ffitio i'r cyd-destun polisi ehangach sy'n esblygu yng Nghymru.

*"Gwybodaeth sy'n wirioneddol ddefnyddiol wrth weithio gyda theuluoedd a phlant sy'n ffoaduriaid ac yn geiswyr lloches."*

*Cynrychiolydd, hyfforddiant sgyrsiau beth sy'n bwysig i blant a phobl ifanc*

**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)**
Cyflwynodd Plant yng Nghymru bum sesiwn hyfforddi ar gyfer awdurdodau lleol ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), ynghyd â dwy sesiwn ar gyfer Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd.

**Canlyniadau Meddal a'r Pellter a Fesurwyd**
Cyflwynodd Plant yng Nghymru dair sesiwn hyfforddi ar ganlyniadau meddal a'r pellter a fesurwyd ar gyfer Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Cymru rhwng Hydref a Rhagfyr 2016.



# Llywodraethiant

**Bwrdd yr Ymddiriedolwyr**
Bwrdd yr Ymddiriedolwyr sy'n delio gyda materion ariannol a llywodraethiant y corff, ac mae'n cynnwys hyd at 12 o aelodau. Caiff naw o'r aelodau hyn eu hethol, a phenodir tri arall.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gwasanaethu am isafswm o ddau dymor o dair blynedd, ac ar ddiwedd eu cyfnod cyntaf yn y swydd, gellir eu hailethol.

Aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn ystod 2016-17 oedd:

- Dr David Williams, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan (Cadeirydd ers mis Hydref 16)
- Ann Shabbaz, Hafan Saff Cyf
- Hannah Williams, Hosbis Teulu Tŷ Hafan
- Jane Newby, Prifysgol De Cymru
- Kara Williams (Trysorydd)
- Mike Greenaway (tan fis Hydref 16)
- Yr Athro Emeritws Jo Sibert (tan fis Mawrth 17)
- Yr Athro David Egan, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
- Yr Athro Jonathan Scourfield, Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Caerdydd
- Sarah Jones, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Sarah Crawley, Barnardo's Cymru
- Mike Shooter, (o fis Hydref 16)
- Diane Daniel, Tros Gynnal Plant (o fis Hydref 16)
- Nia John, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (o fis Mawrth 17)

**Y Cyngor Polisi**
Mae gan Plant yng Nghymru Gyngor Polisi sy'n cyflwyno argymhellion ynghylch materion polisi plant a phobl ifanc i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ac yn helpu i lunio blaenoriaethau a gwaith y sefydliad. Mae Ymddiriedolwyr Plant yng Nghymru hefyd yn awtomatig yn dod yn aelodau o'r Cyngor Polisi.

**Cyrff Cynrychioliadol (penodwyd, hyd at 10 o aelodau)**
- ACPO
- ADEW (cynrychiolir gan Pierre Bernhard Grout, CLlLC)
- ADSS (cynrychiolir gan Leighton Rees, CBS Sir Ddinbych)
- Conffederasiwn y GIG
- Iechyd Cyhoeddus Cymru (cynrychiolir gan Rachel Shaw)
- Coleg Brenhinol Pediatreg a Iechyd Plant yng Nghymru (cynrychiolir gan Dr Nia John)
- CLlLC (cynrychiolir gan Stewart Blythe, Joanna Davies a Catherine Davies, CLlLC)

**Aelodau Etholedig**
- Brigitte Gater, Action for Children Gweithredu dros Blant
- Cherrie Bija, Bwrdd Cyfrifoldeb Cymdeithasol Esgobaeth Abertawe a Brycheiniog
- Deborah Jones, Lleisiau o Ofal (Cymru)
- Des Mannion, NSPCC Cymru
- Diane Daniel, Tros Gynnal Plant
- Dr Elspeth Webb
- Dr Susan Evans, Prifysgol Bangor a Bwrdd Addysgu Iechyd Powys
- Gwilym Roberts, Relate Cymru
- John Gallanders, AVOW
- Carl Cooper, PAVO
- Mary Powell-Chandler, Achub y Plant
- Paul Glaze, CWVYS
- Uzo Iwobi, Cyngor Hil Cymru
- Helen Mary Jones, Youth Cymru
- Lynne Osborne, Coleg Cymunedol YMCA Cymru

**Aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr**
- Dr David Williams, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan (Cadeirydd)
- Kara Williams (Trysorydd)
- Ann Shabbaz, Hafan Saff Cyf
- Yr Athro Emeritws Jo Sibert
- Hannah Williams, Hosbis Teulu Tŷ Hafan
- Jane Newby, Prifysgol De Cymru (o fis Hydref 2015)
- Mike Greenaway, Chwarae Cymru
- Yr Athro David Egan, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
- Yr Athro Jonathan Scourfield, Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Caerdydd
- Sarah Jones, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Yvonne Rodgers, Barnardo's Cymru

**Arsylwyr**
- CAFCASS Cymru
- Llywodraeth Cymru
- Comisiynydd Plant Cymru
- Y Loteri Fawr
- Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

## Aelodaeth

Mae Plant yng Nghymru yn cynnig cynllun aelodaeth i unigolion a sefydliadau sydd â diddordeb mewn gwella bywydau plant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru.

Daw ein haelodau o'r trydydd sector, y sector statudol a'r sector preifat, ac maen nhw'n cynnwys awdurdodau lleol, byrddau iechyd, cyrff trydydd sector, adrannau prifysgol, ysgolion, meithrinfeydd, canolfannau teulu ac unigolion.

Yn ystod 2016-17, roedd gan Plant yng Nghymru 276 o aelodau, oedd yn cynnwys 196 o sefydliadau ac 80 o aelodau unigol. Rhoddodd 16 o unigolion ychwanegol, sy'n gweithio i aelodau sefydliadol, eu henwau i lawr fel aelodau ategol, er mwyn medru derbyn gwybodaeth yn uniongyrchol.

Carem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'n haelodau am eich cefnogaeth barhaus.



**Aelodau Sefydliadol 2016/17**

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
- Prifysgol Aberystwyth
- Gweithredu dros Blant
- Actus Education Cymru
- AFASIC Cymru
- Amelia Trust Farm
- Amgueddfa Cymru - National Museum Wales
- Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan
- Cyngor Môn – Dechrau'n Deg
- Arad Consulting
- Arthritis Care Wales
- ASH Wales (Action on Smoking & Health in Wales)
- Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Wrecsam
- Atal y Fro
- Cymorth i Ferched Bangor a'r Cyffiniau
- Barnardo's Cymru
- BBC Plant mewn Angen
- Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr - Wrecsam
- Bettws Lifehouse
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent - GGD
- Canolfan Therapi Plant Bobath
- Booktrust Cymru
- Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO)
- Buttle UK
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Rhwydwaith Rhieni Caerffili
- CAFCASS Cymru
- Calan DVS
- Campfire Cymru
- Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd
- Canolfan Plant Jig-So Children's Centre
- CAPIC (Collaboration for Accident Prevention Injury Control)
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro - Caerdydd
- Cyngor Caerdydd
- Prifysgol Fetropolitan Caerdydd
- Cyngor Trydydd Sector Caerdydd (C3SC)
- Gwasanaeth Anabledd Prifysgol Caerdydd
- Cymorth i Ferched Caerdydd
- YMCA Caerdydd
- Gwasanaeth Cam-drin Domestig Caerfyrddin (CDAS)
- Cyngor Sir Caerfyrddin
- Cymdeithas Ieuenctid a Phlant Sir Gaerfyrddin (CYCA)
- CaST Cymru
- CCPAS
- Cyngor Sir Ceredigion
- Changing Faces
- Ymddiriedolaeth Ymyrraeth Gynnar Plant
- Cyngor ar Bopeth Cymru
- Dinas a Sir Abertawe – Ataliaeth ac Ymyrraeth Gynnar
- Dinas a Sir Abertawe – Uned Datblygu Staff a Hyfforddiant
- Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
- Coleg Cambria
- Coleg y Cymoedd
- Cartrefi Plant Compass
- Contact a Family Cymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – Gwasanaeth Ieuenctid
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – Teuluoedd Gwledig yn Gyntaf

- Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru (CWVYS)
- Cruse Bereavement Care Cymru
- Cylch Meithrin Clydach
- Dangerpoint
- Cyngor Sir Ddinbych – Dechrau'n Deg
- Cyngor Sir Ddinbych – The Oaktree Centre
- GGD Cyngor Sir Ddinbych
- DEWIS Ltd
- Digartref
- Gwirfoddoli Myfyrwyr Discovery Abertawe
- Duffryn Community Link
- Dyfodol Powys Futures
- Dynamix Ltd
- Elevate
- Family Fund
- Family Matters Mediation Ltd
- Family Psychology Solutions CIC
- First Campus (Partneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach)
- Cyngor Sir y Fflint – Gwasanaeth Creche
- FNF Both Parents Matter Cymru
- Foster Care Associates
- Rhwydwaith Maethu Cymru
- Fostering Outcomes
- FPA
- Full Circle Education Solutions CIC
- Genus Care Ltd
- Coleg Gŵyr Abertawe
- GroBrain
- Grŵp Cynefin
- Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Gwent (GAVO)
- Ysgol Gynradd Gwyrosydd
- Hafal
- Hafan Cymru
- Hafan Saff Cyf
- Health Matters Education
- Home Start
- Iaith Cyf / TWF
- Keys Fostering
- Landsker Child Care
- Learning Disability Wales
- Llên Cymru
- Llamau Ltd
- Canolfan Plant Llwynhendy
- Lylac Ridge
- MENCAP Cymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tydfil
- Mirus Wales
- Cymdeithas Genedlaethol y Plant Byddar
- CBS Castell-nedd Port Talbot – Datblygu Chwarae
- Uned Hawliau Plant Castell-nedd Port Talbot
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot – Hyfforddi a Datblygu (Gwasanaethau Plant)
- Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot
- Cyngor Dinas Casnewydd
- Mind Casnewydd
- Cymdeithas Tai Newydd
- Cymdeithas Pobl Fyddar Gogledd Cymru
- Grŵp Coleg Castell-nedd Port Talbot
- NSPCC
- NYAS
- Panel Diogelwch Cydenwadol / Interdenominational Protection
- Pathway Care
- Cyngor Sir Penfro
- Ysgol Gynradd Gymunedol Penygarn
- People and Work Unit
- Plant Dewi
- Chwarae Cymru
- Canolfan Gyswllt Plant Pontypridd
- Gwasanaeth Gofalwyr Powys
- Cyngor Sir Powys
- Practice Solutions
- Prifysgol Bangor University
- ProMo-Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Cyngor Hil Cymru
- RAY Ceredigion
- Reach
- Relate Cymru
- Right From The Start (Caerffili)
- RNIB Cymru
- Coleg Brenhinol Pediatreg a Iechyd Plant
- Rydal Penrhos Prep School
- Safe Families for Children Wales
- Achub y Plant
- Schoolhouse Daycare Ltd
- Scope Wales
- SENSE Cymru
- Skybound Therapies
- SNAP Cymru
- South Riverside Community Development Centre
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
- Cymdeithas Plant Dewi
- Coleg Dewi Sant
- St John Cymru Wales
- St Thomas Sunflowers Flying Start
- STAR Communities First
- Stteps
- Supported Fostering Service
- Bwrdd Esgobaeth Abertawe a Brycheiniog ar gyfer Cyfrifoldeb Cymdeithasol
- TACT Cymru
- Cymdeithas Tai Taf
- The Owl and Pussycat Nursery
- The Place2Be
- The Venture
- The Windfall Centre
- Toadhall Montessori Nursery and Creche
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Ysgol a Chanolfan Adnoddau Trinity Fields
- Tros Gynnal Plant
- TSW Training Ltd
- Tŷ Hafan
- UCAC (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru)
- UNICEF UK
- Yr Eglwys Unedig Ddiwygiedig (URC), Synod

Cenedlaethol Cymru
- Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant
- Cyngor Bro Morgannwg – Partneriaeth Plant
- Cyngor Bro Morgannwg – Dechrau'n Deg
- Valleys Kids
- Voice
- Lleisiau o Ofal (Cymru)
- Voluntary Action Merthyr Tydfil
- Volunteering Matters
- Cyngor Pobl Fyddar Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)
- Cyngor Ffoaduriaid Cymru
- Cyngor i Ferched Cymru
- Ysgol Gynradd West Park
- Whizz Kidz
- Wise Kids
- Cyngor ar Bopeth Wrecsam
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Wye Valley Mediation
- Y Bont
- Y Bont - Cartref Bontnewydd
- Youth Cymru
- Ysgol Gyfun Gwynllyw
- Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd
- Ysgol Maesincla
- Ysgol Syr Thomas Jones
- Ysgol y Wern
-

**Aelodau Unigol 2016/17**
- Ms Ann Sherlock
- Ms Ann Bell
- Mr Andy Chick
- Dr Anne Crowley
- Yr Athro Jonathan Scourfield
- Mrs Catherine Slade
- Ms Catherine Thomas
- Mr Paul Hopkins QC
- Ms Ann Williams
- Dr Mike Shooter CBE
- Mr Roger Bishop
- Y Cyng. Christine Walby OBE
- Mrs Claire Mitchell
- Mrs Clare McDonald
- Mrs Diane Daniel
- Ms Donna Paton
- Dr Sarah Jones
- Ms Fiona MacLeod
- Ms Kerry Kane
- Mr Ian Sherwood
- Mrs Glenys Benford-Lewis
- Mrs Lindy Duncalf
- Mr Martin Price
- Mrs Jan Berry
- Mrs Jane Newby
- Ms Jan Owen
- Mr John Harris
- Mr John Valentine Williams OBE
- Ms Jude Hills
- Dr Julie Doughty
- Ms Kara Williams
- Mrs Kathryn Hemmings
- Ms Kathy Cook
- Miss Kelly Corcoran
- Ms Kristen Osmundsen
- Mrs Lauren Lincez
- Mrs Lesley Conran
- Ms Lisa Payne
- Ms Liz Raynor
- Ms Louise Hall
- Ms Margaret Hanney MBE
- Mr Matthew Underhill
- Mrs Megan Harvey
- Mr Merfyn Roberts
- Ms Mina McElwain
- Mr Neil Owen-Casey
- Ms Nell Warner
- Mrs Pauline Galluccio
- Yr Athro Jo Sibert OBE
- Ms Rachael Freedman
- Dr Ruth Parry
- Ms Sara Reid
- Ms Sarah Morgan
- Ms Sian Williams
- Ms Felicity Fletcher
- Ms Sue Bidmead
- Mr Tom Davies
- Mr Trevor Evans
- Ms Trudi Harris
- Yr Athro June Statham
- Yr Athro Nigel Thomas
- Ms Vanessa Webb
- Miss Lucy Hodson
- Mr William Bond
- Ms Elaine Simpson
- Miss Avril Hooper
- Ms Billy Goodfellow
- Dr Sue Evans
- Mrs Diane Wilmott
- Mrs Rebecca Gibbs
- Ms Claire Cartwright
- Mrs Emma Morgan
- Ms Judith John
- Ms Sharon Morris
- Ms Pam Hoyle
- Mr Chris Lloyd
- Mr Simon Rushton
- Mr Roger Thurlbeck
- Ms Pat Westow
- Mrs Linda Roberts

# Crynodeb ariannol

| Gwariant | | |
|---|---|---|
| Gwell cysylltiadau i Blant, Pobl Ifanc, Teuluoedd a'r Gweithlu | £411,333 | 26.5% |
| Dylanwadu ar Ymarfer, Datblygu Polisi ac Ymchwil trwy Gynrychiolaeth ac Ymgynghori | £444,730 | 28.7% |
| Gwell Gwybodaeth i Blant, Pobl Ifanc, Teuluoedd a'r Gweithlu | £566,576 | 36.5% |
| Gwasanaeth Cymorth i'r Aelodau | £63,674 | 4.1% |
| Llywodraethiant | £64,321 | 4.1% |
| Cyfanswm | £1,550,634 | 100% |
| | | |
| **Incwm** | | |
| Gwell cysylltiadau i Blant, Pobl Ifanc, Teuluoedd a'r Gweithlu | £433,365 | 26.7% |
| Dylanwadu ar Ymarfer, Datblygu Polisi ac Ymchwil trwy Gynrychiolaeth ac Ymgynghori | £447,345 | 27.6% |
| Gwell Gwybodaeth i Blant, Pobl Ifanc, Teuluoedd a'r Gweithlu | £492,732 | 36.6% |
| Gwasanaeth Cymorth i'r Aelodau | £67,102 | 4.1% |
| Llywodraethiant | £81,081 | 5% |
| Cyfanswm | £1,621,625 | 100% |

